# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Dylan Rees
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Canolbarth Môn

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn (Cadeirydd) | Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Disgyblu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd) | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | Gweler:<br><br>http://cvsc.org.uk/cy/health-and-social-carehealth-and-social-care/betsi-cadwaladr-community-health- |

| | |
|---|---|
| | Rydw i yn un o dri Chynghorydd Sir Ynys Môn sy’n eistedd ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, sef un o wyth corff gwarchod statudol GIG Cymru sydd yn cynrychioli diddordebau’r cyhoedd a chleifion mewn gofal iechyd. Fel rhan o fy rôl, rydw i wedi cynorthwyo gydag arddangosfeydd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am waith y Cyngor Iechyd Cymuned. |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/?lang=cy-gb<br><br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/audit-committee/?lang=cy-gb<br>Rydw i yn un o dri Chynghorydd Sir Ynys Môn a benodwyd i wasanaethu ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd yn monitro perfformiad a chyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC). Rydw i hefyd yn gwasanaethu ar Is-bwyllgor Archwilio ATAGC. |
| Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Atebolrwydd/Police-and-Crime-Panel.aspx<br>Fi yw unig gynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn a benodwyd i wasanaethu ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Rôl y Panel hwn yw monitro cyllideb a pherfformiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Mr Arfon Jones. |
| Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Bodffordd | Ar hyn o bryd, rydw i’n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd. Bu’r ddwy flynedd ddiwethaf yn gyfnod anodd i’r ysgol o ganlyniad i fygythiad i gau’r ysgol o dan ‘Raglen Moderneiddio Ysgolion’ y Cyngor a’r ffaith bod angen gwella’r ysgol ar ôl iddi gael ei rhoi mewn categori oren gan Estyn. Fodd bynnag, braf yw adrodd bod safonau’r ysgol wedi gwella’n raddol a’i bod yn y categori ‘melyn’ erbyn hyn.<br><br>Yn ogystal, mae’r penderfyniad gwreiddiol ar ddyfodol darpariaeth addysg yn ardal Llangefni a wnaethpwyd yn 2018 newydd gael ei ddiddymu. |

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr - Canolfan Addysg y Bont, Llangefni | http://canolfanaddysgybont.cymru/index.html Rydw i hefyd yn Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Canolfan Addysg y Bont. Yr her anoddaf i'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd cydbwyso'r gyllideb ac mae trafodaethau yn parhau gyda'r Cyngor ynghylch cyllido addas. |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod, rydw i hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill ym mhob rhan o fy ward, yn cynnwys:

Cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned – Rydw i'n Gynghorydd Tref gyda Chyngor Tref Llangefni (mynychais 16 allan o 17 cyfarfod llawn o'r Cyngor) ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roeddwn yn Gadeirydd yr "Is-Bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol". Rydw i hefyd wedi ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynychu Cyngor Cymuned Llanddyfnan ac rydw i'n mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

Mae sefydliadau lleol eraill yr wyf yn ymwneud â nhw yn cynnwys y canlynol:

Menter Gymdeithasol Llangefni. Mae'r grŵp adfywio lleol hwn yn gyfrifol am Barc Chwaraeon Trefol Llangefni ac rydw i'n Gadeirydd y grŵp prosiect. Bu'r prosiect yn llwyddiant mawr ac mae rhwng 80-100 o ddefnyddwyr yn ymweld â'r Parc bob dydd.

Gobaith Môn. Rydw i'n ysgrifennydd i ymddiriedolwyr y sefydliad hwn sydd yn elusen Gristnogol sydd yn hyrwyddo gwaith ieuenctid ar yr ynys. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gweithwyr Gobaith Môn wedi bod yn darparu gweithgareddau/gwersi amrywiol mewn pedair o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys.

Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru. Rydw i'n aelod o'r sefydliad hwn sydd wedi gwneud gwaith anhygoel i gael gwared â gwiwerod llwyd o Ynys Môn ac ailsefydlu'r ynys fel cynefin naturiol ar gyfer y wiwer goch e.e. Nant y Pandy, Llangefni.

Partneriaeth Llangefni. Rydw i'n aelod o'r grŵp adfywio lleol sydd yn ceisio dod ag unigolion a sefydliadau ynghyd gyda'r nod o adfywio Llangefni. Yn ddiweddar, canolbwyntiwyd ar geisio rhoi hwb i Farchnad Llangefni.

Parkrun Llangefni. Mae'n bleser cefnogi'r fenter hon sydd wedi profi cryn lwyddiant, gyda rhwng 70 a 100 o redwyr yn rhedeg drwy Nant y Pandy bob bore Sadwrn. Yn ogystal â gwirfoddoli, o bryd i'w gilydd rydw i hefyd wedi cofnodi fy amser gorau, sef 26.00 munud!

Yn ogystal â mynychu nifer o gyfarfodydd, mae gennyf lwyth gwaith sylweddol wrth i mi geisio gwneud gwaith ar ran fy etholwyr. Mae enghreifftiau o achosion y bûm yn delio â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Cynllunio – gwrthwynebu rhai ceisiadau a darparu cymorth gyda cheisiadau eraill.
- Tai – darparu cyngor ynglŷn â'r polisi dyrannu a chynorthwyo cleientiaid oedd yn wynebu cael eu gwneud yn ddigartref neu yn ceisio cael trosglwyddiad.
- Priffyrdd – cynorthwyo gyda chwynion ynglŷn â goryrru, parcio a chyflwr wyneb y ffordd.
- Rheoli Gwastraff – cynorthwyo achwynwyr mewn perthynas â chasglu gwastraff.
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – gweithio gyda'r Heddlu i gynorthwyo achwynwyr.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cefais y fraint o wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor Sir. Mae'r rôl ddinesig hon wedi rhoi cyfle i mi fynychu llu o wahanol ddigwyddiadau cymunedol ar yr ynys, yn cynnwys nifer o eisteddfodau a chymanfaoedd canu. Mae uchafbwyntiau arbennig wedi cynnwys croesawu Ryan Giggs, Rheolwr Tîm Pêl-droed Cymru i agoriad y cae 3G newydd ym Mhlas Arthur, Llangefni a hefyd Dug a Duges Caergrawnt yn ystod eu hymweliad â Llanddwyn yn ddiweddar. Roedd yn fraint hefyd ymweld â theulu o ffoaduriaid Syria a gafodd eu hailgartrefu ar yr ynys gan y Cyngor ac i roi croeso cynnes iddynt.

Rhan arall o rôl y Cadeirydd yw codi arian at achosion da, a'r elusen a ddewisais i oedd Hosbis Dewi Sant fydd yn agor is-uned pedwar gwely yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi yn ddiweddarach eleni. Llwyddais i godi ychydig dros £10,400 drwy'r tri digwyddiad a ganlyn:

- Casgliad yn ystod Gwasanaeth y Cadeirydd a gynhaliwyd yng Nghapel Moeria, Llangefni fis Hydref y llynedd.
- Elw cyngerdd a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Llangefni ym mis Ebrill gyda'r Brodyr Magee, Seindorf Biwmares, Côr Glanaethwy a Gruffydd Wyn – am noson wych o adloniant!
- Taith gerdded noddedig ar hyd llwybr Arfordir Ynys Môn, taith o 130 milltir a gwblheais dros 12 niwrnod yn ystod y Pasg. Gweithiais gyda "Cadwch Gymru'n Daclus" a staff Cyngor Môn i gwblhau pum ymgyrch 'glanhau traeth' ar hyd y daith.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=267&RPID=500087263&LLL=1

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=267&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dylan Rees** | **Mai 2019** |